**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Biliau Diwygio

SeneddDiwygio@senedd.cymru

19 Mawrth 2024

Annwyl David,

Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ddydd Mercher 13 Mawrth, gwnaed ymrwymiad i ysgrifennu i'r Pwyllgor ar ddau fater.

Y mater cyntaf oedd y cwestiwn yn gofyn beth oedd y gost i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr achos diwethaf yr aed ag ef i'r Goruchaf Lys mewn perthynas â mater cymhwysedd yn gysylltiedig â Bil gan y Senedd.

Y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) oedd y bil diwethaf i gael ei gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Nid yw costau cyfeirio'r bil hwnnw yn nodweddiadol, fodd bynnag, gan fod y Twrnai Cyffredinol wedi tynnu'r cyfeiriad yn ôl cyn unrhyw wrandawiad yn y Goruchaf Lys. Y bil diwethaf i gael ei gyfeirio cyn hynny oedd y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru). Cofnodwyd bod y costau a oedd yn gysylltiedig â chyfeirio'r bil hwnnw yn £62,596.54.

Yr ail fater oedd y cwestiwn yn gofyn a yw Llywodraeth Cymru wedi ceisio unrhyw gyngor cyfreithiol allanol. Gallaf gadarnhau bod cyngor cyfreithiol allanol wedi'i geisio.

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.